**EXD684(W)**

Llywodraeth Cymru

Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 O.S. 2008/1090 (Cy.116)
(fel y'u diwygiwyd) – Rheoliad 19

# Trwydded gyffredinol i frechu yn erbyn y tafod glas seroteipiau 1,2,4 ac 8 yng Nghymru

Yn ddilys o: 00:01 ar 23 Ebrill 2026

Yn unol â Rheoliad 19(1) o Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) ("Rheoliadau 2008") mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r drwydded gyffredinol hon, yn amodol ar gydymffurfio â'r amodau a nodir yn yr Atodlen i'r drwydded hon.

1. Mae'r drwydded hon yn caniatáu brechu anifeiliaid cnoi cil neu gamelidau yn unol â Rheoliad 19(1) o Reoliadau 2008 â brechlynnau'r tafod glas wedi'u hanactifadu sy'n diogelu rhag y tafod glas seroteipiau 1,2,4 neu 8, cyn belled â bod y brechlyn wedi cael y canlynol:
    a. caniatâd marchnata gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol; neu
    b. trwydded gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 4 o Atodlen 4 i Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013.
2. Mae asesiad risg penodol wedi'i gynnal yn unol â rheoliad 19(4) o Reoliadau 2008.
3. Mae'r drwydded gyffredinol hon yn gymwys yng Nghymru yn unig.
4. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio, atal neu ddirymu'r drwydded hon yn ysgrifenedig unrhyw bryd.

Mae'r drwydded gyffredinol dyddiedig 03 Hydref 2012 a ddaeth i rym am 00:01am ar 10 Hydref 2012 drwy hyn yn cael ei dirymu a chymerir ei lle gan y drwydded gyffredinol hon o 00:01 ar 23 Ebrill 2026

Llofnodwyd gan: Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad: 15 Ebrill 2026

# Atodlen Amodau:

1. Rhaid i'r person sy'n rhoi'r brechlyn o dan y drwydded hon frechu'r anifeiliaid ond â'r brechlyn tafod glas sydd wedi'i ragnodi gan y milfeddyg sydd fel arfer yn gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid, a rhaid iddo wneud hynny yn unol â chyfarwyddyd y gwneuthurwr a'r milfeddyg.
2. Rhaid i'r ceidwad anifeiliaid gadw cofnod o bob anifail a gafodd ei frechu a rhaid ei ddarparu i arolygydd os oes angen. Rhaid cadw'r cofnod am o leiaf 5 mlynedd a rhaid iddo gynnwys y canlynol:

    a. y rhywogaeth a gafodd ei brechu
    b. rhif adnabod parhaol yr anifail unigol (tag clust neu ddull adnabod swyddogol parhaol arall)
    c. dyddiad y dos cyntaf
    d. dyddiad unrhyw ddos arall
    e. enw'r cynnyrch brechlyn a rhif swp
    f. enw a theitl swydd y person a roddodd y brechlyn
    g. faint o ddos a roddwyd (ml)
    h. dull brechu (hynny yw, yn y cyhyr neu o dan y croen)
    i. cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd y brechlyn a ddefnyddiwyd
    j. unrhyw ddosau sydd dros ben a faint (ml) sydd i'w ddychwelyd yn unol ag amod 6
    k. rhif y daliad (CPH) a chyfeiriad y daliad lle cafodd y brechlyn ei roi

3. Ceidwad yr anifeiliaid sy'n gyfrifol am wneud a chadw cofnod cywir yn unol ag Amod 2.
4. Rhaid i'r ceidwad anifeiliaid gwblhau'r cofnod sy'n ofynnol yn amod 3, gyda'r ffurflen ‘adrodd am eich defnydd o'r brechlyn BTV-1, 2, 4 ac 8’, cyn gynted â phosibl a dim mwy na 48 awr o'r dyddiad brechu.
5. Rhaid i unrhyw berson sydd â brechlyn BTV yn ei feddiant storio'r brechlyn yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
6. Rhaid i'r ceidwad anifeiliaid sicrhau bod yr holl ddosau sydd dros ben (wedi'u hagor a heb eu hagor) yn cael eu dychwelyd i'r milfeddyg a wnaeth eu rhagnodi.
7. Os gwelir bod sgil-effeithiau andwyol yn gysylltiedig â'r brechlyn, gan gynnwys os oes amheuon nad yw'n gweithio, rhaid i geidwad yr anifeiliaid roi gwybod o fewn 7 diwrnod calendr o weld am y tro cyntaf yr effeithiau andwyol i'r cwmni fferyllol perthnasol (a nodir ar daflen y pecyn) neu'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (Rhoi gwybod am broblem â meddyginiaeth neu ficrosglodyn anifail).

**Nodiadau esboniadol**

1. Dim ond brechlynnau y caniateir neu yr awdurdodir eu rhoi yng Nghymru y mae'r drwydded gyffredinol hon yn caniatáu eu defnyddio.
2. Ystyr “milfeddyg” yw person sydd â'r cymwysterau priodol sydd wedi'i gofrestru gyda Choleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS).
3. Ystyr “anifail” yw anifail sy'n cnoi cil neu gamelid. Mae anifeiliaid sy'n cnoi cil yn cynnwys gwartheg, defaid, geifr a cheirw, ymhlith anifeiliaid eraill. Mae camelidau yn cynnwys camelod, lamas ac alpacas.
4. Os ydych yn amau achos o glefyd hysbysadwy ymhlith eich anifeiliaid, rhaid i chi roi gwybod i swyddfa leol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar unwaith ar 0300 303 8268.
5. Nid oes unrhyw beth yn y drwydded hon sy'n eich rhyddhau o'ch rhwymedigaeth i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.
6. Mae deddfwriaeth y tafod glas i'w gweld yn Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008
7. Am 7 diwrnod ar ôl eu brechu, peidiwch â rhoi profion cyn symud ar anifeiliaid sydd wedi'u brechu, er mwyn lleihau'r risg o gael canlyniad positif anghywir.
8. Mae gwybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn siarter gwybodaeth bersonol a hysbysiadau preifatrwydd APHA.

**Bydd unrhyw berson sy'n torri amodau'r drwydded hon a wnaed o dan Reoliadau 2008 (fel y'u diwygiwyd) yn cyflawni trosedd ac o'i gael yn euog mewn llys ynadon, gallai gael dirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu gyfnod o garchar na fydd yn fwy na 3 mis, neu'r ddau.**